Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Cyhoeddi'r Ddogfen Ymgynghori 'Dynodi awdurdod trwyddedu o dan Ran 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a bwriad y rheoliadau hyfforddi a fydd yn rheoli gofynion hyfforddi landlordiaid ac asiantau.'** |
| **DYDDIAD** | **19 Rhagfyr 2014** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths – y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi** |

Hoffwn hysbysu Aelodau'r Cynulliad bod dogfen ymgynghori wedi'i chyhoeddi heddiw ar wefan Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ynghylch bwriad y Gorchymyn Dynodi a'r Rheoliadau Hyfforddi a wneir o dan Ran 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Fy nod yw cydgasglu safbwyntiau a sylwadau'r rheinyy y bydd y ddeddfwriaeth newydd, a'r rheoliadau yn enwedig, yn effeithio arnynt.

Rwy'n awyddus i glywed barn y rhai sydd â diddordeb yn y newid hwn a byddaf yn ystyried eu safbwyntiau nhw yn ofalus wrth ddrafftio'r rheoliadau.

Bydd yr ymgynghoriad ar y cynigion hyn yn parhau am 7 wythnos, hyd at 6 Chwefror 2015. Mae'r ddogfen ymgynghori ei hunan yn rhoi manylion am sut i ymateb.

http://wales.gov.uk/consultations/housing-and-regeneration/designation-of-licensing-authority-under-part1-of-housing-wales-act-2014/?lang=en

Caiff y datganiad ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau. Os bydd aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Cynulliad yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.